**Eluned Morgan AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**Minister for International Relations and the Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-929
Ein cyf/Our ref EM/05761/19

Janet Finch-Saunders AC
Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

SeneddDeisebau@cynulliad.cymru

11 Rhagfyr 2019

Annwyl Janet

**Deiseb P-05-929 - Annog y defnydd o 'Cymru' a 'Cymry' wrth gyfeirio atom ein hunain yn y Gymraeg a'r Saesneg.**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Tachwedd am y Ddeiseb uchod oddi wrth Mair Edwards sydd wrthi'n casglu llofnodion ar ei chyfer.

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal gwaith marchnata i hyrwyddo Cymru yn y DU a gweddill y byd fel lle i weithio a buddsoddi ynddo ac i ymweld ag e. Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o "Frand Cymru" i ddatblygu delwedd unigryw ar gyfer Cymru ac i ddenu mwy o dwristiaid a buddsoddwyr.

Rydym wastad yn defnyddio fersiwn ddwyieithog y brand neu'r logo, ac rydym yn defnyddio Cymru a Wales yn ein prif ymgyrchoedd. Rydym yn defnyddio'r gair 'Cymru' heb ei gyfieithu mewn 'straplines' Saesneg ambell waith er mwyn cryfhau'r neges. Enghraifft dda o hyn yw "This is Cymru" gafodd ei ddefnyddio yn un o'n hymgyrchoedd; ac mewn deunydd ym Maes Awyr Cymru Caerdydd. Byddwn hefyd yn parhau i ddefnyddio'r gair "Cymry" yn Saesneg yn ôl y gofyn.

Mae hyrwyddo'r Gymraeg yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru: rydym am weld Cymru sy'n genedl hyderus a dwyieithog. Rwy'n cefnogi'r syniad o annog pobl i ddefnyddio "Cymru" a "Cymry" mewn deunydd Saesneg mewn ffordd sy'n cryfhau'n neges: ond mae'n

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

bwysig hefyd ein bod yn para'n hyblyg ac yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n briodol i'r cyd-destun a'n cynulleidfa.

Gobeithio bod hyn wedi bod y gymorth.

Cofion Gorau a Nadolig Llawen

**Eluned Morgan AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Minister for International Relations and the Welsh Language